Mae darparwyr wedi adleisio eu gwerthfawrogiad tuag at Helen a'r gefnogaeth y mae wedi'i darparu drwy gydol y cyfnod. Bu hyn o gymorth i'r cartrefi ddiogelu'r preswylwyr yn ystod cyfnodau o dywyllwch llwyr pan oedd y sefyllfa COVID-19 yn ddwys.

Mae Helen wedi bod yn ffactor sylfaenol yn yr ymateb i COVID-19 yng Ngheredigion.

Ian Randell/Alison Watkins - Uwch Reolwyr Comisiynu - Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae'r timau comisiynu wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r sector gofal, yn enwedig y sector cartrefi gofal, yn ystod y pandemig i liniaru effaith COVID, i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed ac i liniaru marwolaethau cynamserol; 'ymdrehch tîm' go iawn, arddangosiad o ddysgu ar y cyd, cydgefngogaeth, datrys problemau'n gyflym ar y cyd ac yn greadigol. Gan ddangos eu hyblygrwydd a'u hymatebolrwydd, maent wedi gweithio'n ddiflino i gynnal gwasanaeth cymorth 7 diwrnod yr wythnos i ymateb i argyfyngau a pharhau i gefnogi dros ddwy flynedd o COVID. Mae'r timau wedi: datblygu polisiau a phrotocolau amlasantaeol i asesu a monitro risg ar draws y system gyfan; datblygu cyd-gymorth i gefnogi gweithio trawsffiniol ar adegau o argyfwng; a hyrwyddo a chydgylltu brechiadau, cyfarpar diogelu personol, mesurau rheoli atal heintiau, mentrau ymarferol yn y gweithlu a chynlluniau wrth gefn i gefnogi ein sectorau mwyaf agored i niwed a gofal a chymorth. Ar ei anterth, roedd y timau'n wynebu ac yn lliniaru'r posibilrwydd o gau cartrefi, yn rheoli nifer o achosion o COVID, yn cefnogi ymyriadau rheoleiddio ac yn ymdrin â phwysau difrifol mewn perthynas â rheoli risg.

Nerys Lewis - Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Uniongyrchol - Cyngor Sir Ceredigion

Mae Nerys wedi gweithio'n ddiflino i gynhyrchu canllawiau a phrotocolau clir a chadarn ar gyfer cartrefi gofal o fewn amserlenni byr iawn, gan fanylu ar ganllawiau penodol ar reoli heintiau a chefnogi llesiant y preswylwyr a diogelu iechyd a llesiant y staff. Mae hi wedi cydweithio â thîm y Bwrdd Iechyd Sirol Lleol i sicrhau bod yr holl waith a gwblhawyd yn cael ei wneud drwy ymgynghori a chyda ffocws integredig.

Mae Nerys wedi ymuno â galwadau wythnosol gyda'r holl ddarparwyr i'w cefnogi i ddarparu gwybodaeth a rhannu'r holl ddogfennau a gynhyrchrir ar gyfer y cartrefi mewnol, gan ymateb i ymholaiddau a phryderon wrth iddynt godi, waeth beth fo'r amser neu'r diwrnod. Yn fwyaf nodedig yw dull Nerys o gefnogi ei thimau a'i staff. Mae wedi cefnogi rheolwyr y cartrefi a'r timau drwy'r hyn sydd wedi bod yn gyfnod heriol iawn; mae lefelau gorbryder wedi bod yn uchel, ond mae hi wedi sicrhau ei bod ar gael 24/7 i gefnogi a gweithio gydag unigolion drwy faterion penodol gan alluogi dull datrys problemau ac agwedd gadarnhaol ar draws yr holl dimau. Mae dull Nerys sy'n canolbwytio ar yr unigolyn bob amser yn golygu mai'r preswylydd/defnyddiwr gwasanaeth sydd bwysicaf yn ei gwaith.

Tracy Skidmore - Rheolwr - Belvedere Care Home Ltd

Mae'r profion covid niferus a'r cyfyngiadau cyffredinol y bu'r cartref yn destun iddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi achub bywydau llawer o breswylwyr, ac ni chafwyd dim marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID. Bu'r cartref dan gyfyngiadau llym am bron i 2 flynedd. Cafwyd adloniant mewnol a defnyddiwyd Zoom i breswylwyr gael gweld eu hanwyliaid. Drwy gydol y pandemig, arweiniodd Tracy y cartref gofal drwy nifer o heriau a gwnaeth hynny gydag ymroddiad parhaus i lesiant yr holl breswylwyr.

Ymrwymiad Eithriadol a Ddangoswyd i Ddiogelu Plant mewn Perygl yn ystod Cyfyngiadau COVID

Kizzie Garner Hughes - Swyddog Amddiffyn Plant Enwebedig - Cyngor Sir Ceredigion

Mae gwaith Kizzie bob amser o safon rago. Mae ei hymrwymiad, ei chryfder a'i sgiliau cyfathrebu cryf bob amser yn amlwg yn ei gwaith. Gan ganolbwytio'n benodol ar gyfnod Covid, arweiniodd Kizzie yn strategol gan weithredu:

- Canllawiau Diogelu Diwygiedig er mwyn sicrhau bod ysgolion yn rhoi gweithdrefnau ar waith mewn modd cadarn yn ystod y cyfyngiadau symud
- Cyfraniad sylweddol tuag at strategaeth dysgu ar-lein ledled y sir, er mwyn sicrhau bod y broses o weithredu sesiynau dysgu 'byw' yn ddiogel.
- Arwain a gweithio'n agos gyda'r Tîm Cynhwysiant i sicrhau bod disgylion sy'n agored i niwed yn cael eu targedu, a chyfathrebu â theuloedd i sicrhau bod y disgylion hyn yn bresennol yn narpariaeth Hwb, gan gysylltu â chludiant i hwyluso tacsis a monitro presenoldeb yn ddyddiol a gwneud cysylltiadau ag asiantaethau eraill i nodi teuluoedd sydd angen bocsys bwyd, pecynnau llesiant a chymorth ac arweiniad arall.
- Arwain a gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn ymweld â hybiau er mwyn darparu cyswllt wyneb yn wyneb i ddisgyblion agored i niwed.
- Sicrhau hyfforddiant a chanllawiau diogelu cadarn ar gyfer darpariaeth Hwb.
- Llunio protocol 'cadw mewn cysylltiad' clir i ysgolion ar gyfer galwadau llesiant a'u huwchgyfeirio i'r Tîm Diogelu os oes angen, gan gynnwys scriptiau ac awgrymiadau ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a staff eraill sy'n ymgymryd â'r galwadau hyn.
- Crëwyd rhestr chwarae diogelu i'r holl staff wedi'u lleoli mewn ysgolion allu ymgymryd â hi yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud, er mwyn cynnal gwybodaeth am ddiogelu a datblygu Dysgu Proffesiynol.
- Arweiniodd Kizzie ar greu safle Teams er mwyn i Arweinwyr Diogelu Ysgolion rannu adnoddau a gwybodaeth yn gyflym.
- Gweithiodd Kizzie yn agos gydag Arweinwyr Llesiant ar gyngor ac arweiniad i rieni yn ystod y cyfnodau clo.
- Mae arweinwyr ysgolion wedi barnu mewn holiadur bod y gwaith uchod yn rhagorol.

Gwasanaethau Cynhwysiant Addysg - Cyngor Sir Penfro

Datblygodd y Timau Addysg a Gofal Cymdeithasol, ochr yn ochr â gwasanaethau a gomisiynwyd gan y trydydd sector, weithgor plant sy'n agored i niwed. Rhoddwyd y prosesau canlynol ar waith fel enghreifftiau o'r gwaith eithriadol a wnaed:

- Crëwyd rôl y Gweithiwr Arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc yr oedd y gwasanaeth wedi nodi eu bod yn 'agored i niwed' ond nad oedd ganddynt weithiwr cymdeithasol.
- Parhaodd y diweddariadau parhaus o ran cyngor ac arweiniad yn rheolaidd drwy gydol y cyfnodau er mwyn i ysgolion eu llwytho i fyny ar eu platformau digidol ar gyfer rhieni a disgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeirio at bynciau fel llinellau cymorth cam-drin domestig, canllawiau diogelwch ar-lein a radicaleiddio (PREVENT) i rieni y gallai ysgolion eu postio ar eu llwyfannau digidol. Anfonwyd dogfennau canllaw ychwanegol at ysgolion am fynychu cynadleddau rhithwir yngylch amddiffyn plant ac adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, canllawiau ar esgeuluso plant yn ystod COVID 19 a chyngor ar ddiogelwch ar-lein i rieni.
- Agorodd y gwasanaeth ieuenciad ganolfannau ieuenciad yn rhannol i alluogi cwnsela a chymorth uniongyrchol i bobl ifanc hŷn sydd mewn mwy o berygl o ddioddef gorbryder a hunan-niweidio. Mabwysiadodd 3 prif ganolfan ieuenciad y sector gwirfoddol y model hwn hefyd.

Zoe Ellams - Gweithiwr Llesiant - Cyngor Sir Powys

Yn ystod y Pandemig byd-eang, bu farw mam yn sydyn ac yn annisgwyl gan adael un plentyn ifanc ac un plentyn yn ei arddegau i orfod delio â'r golled sydyn. Newidiodd hyn fywydau'r ddau blentyn yn llwyr dros nos ac roedd y plentyn a oedd yn agored i Dîm y Gwasanaeth Anabledd Integredig yn ei chael hi'n anodd deall ble roedd eu mam wedi mynd. Gweithiodd Zoe yn ddiflino i gefnogi'r teulu i ystyried y camau nesaf, a oedd yn cynnwys y plant yn symud allan o gartref y teulu oherwydd ffactorau cymhleth. Gwnaeth Zoe gefnogi'r plentyn ag anghenion cymhleth i ddysgu deall beth ddigwyddodd a sut i brosesu ei deimladau o golled. Gwnaeth Zoe waith eithriadol ac ystyriol i alluogi'r plentyn i gael llais ac i fynegi sut roedd yn teimlo ar ôl colli ei fam.

Arloesedd a Chreadigrwydd sy'n arwain at Well Arferion Diogelu i Blant neu Oedolion mewn Perygl

Heather Howells - Ymarferydd Arweiniol Diogelu Oedolion - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Yn ystod pandemig COVID, aeth Heather ati yn gyflym i ddod o hyd i ddatrysiaid i ddarparu hyfforddiant yn rhithwir drwy Microsoft Teams. Cynghorodd ac arweiniodd aelodau eraill o'r tîm ar draws yr holl Dimau i groesawu'r platform newydd hwn a diwygio hyfforddiant diogelu i'w ddarparu'n rhithwir. Ochr yn ochr â hyn, rhoddodd atebion arloesol ar waith ar gyfer coladu presenoldeb mewn hyfforddiant ar gyfer adroddiadau cydymffurfio cywir drwy Gofnodion Staff Electronig a ffurflenni gwerthuso.

O ganlyniad i arloesedd a diwydrwydd Heather wrth ddod o hyd i atebion i'r heriau a gyflwynwyd wrth ailsefydlu hyfforddiant diogelu cyn gynted â phosibl, llwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddechrau darparu hyfforddiant craidd mewn diogelu plant ac oedolion heb fawr o oedi, gan gefnogi gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a gwell arferion diogelu yng ngwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r ateb hwn i'r her a gyflwynwyd i ni wedi cael effaith gadarnhaol enfawr gan fod ein ffigurau cydymffurfio â hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol. Mae mwy o staff yn mynychu sesiynau hyfforddiant rhithwir nag o'r blaen pan oeddent yn cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb.

O ganlyniad i arloesedd a diwydrwydd Heather wrth ddod o hyd i atebion i'r heriau a gyflwynwyd wrth ailsefydlu hyfforddiant diogelu cyn gynted â phosibl, llwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddechrau darparu hyfforddiant craidd mewn diogelu plant ac oedolion heb fawr o oedi, gan gefnogi gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a gwell arferion diogelu yng ngwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae mwy o staff bellach yn mynychu sesiynau hyfforddiant

Meinir James - Rheolwr Tîm ar gyfer Gwasanaeth Diogelu Integredig - Model Gydol Oes - Cyngor Sir Ceredigion

Mae Meinir wedi bod yn ysbrydoledig gyda'r ymroddiad y mae wedi'i ddangos i'r gwasanaeth a'i brwd frydedd dros roi newid ar waith, wrth iddi helpu i ddatblygu tîm diogelu gydol oes, gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y model newydd i ddatblygu gwasanaeth ymyrraeth gynnar/atol cadarn, ac arwain y gwaith o drawsnewid y broses atgyfeirio plant bresennol i ddatblygu proses Model Brysbennu Plant newydd ym maes Porth Gofal. Yn ogystal â hyn, mae Meinir wedi gweithio'n eithriadol o galed i ddatblygu'r Tîm Diogelu ei hun, gan recriwtio aelodau o staff newydd i swyddi newydd o fewn y tîm a sicrhau bod y broses a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu mewn ffordd mor effeithiol a di-dor â phosibl, gan feithrin cyfathrebu cryf â staff ar draws y tîm sy'n ymgymryd â diogelu plant ac oedolion a sicrhau bod y tîm yn gweithio mewn ffordd gyfannol.

Sian Maynard - Bydwraig Diogelu a Enwir - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Yn 2020, datblygodd a chyflwynodd Sian y Gronfa Ddata Diogelu - Rhannu Gwybodaeth yn ystod Beichiogrwydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Dyma'r cyntaf o'i bath yng Nghymru ac roedd yn darparu cof sefydliadol electronig ynghylch pryderon diogelu a nodwyd yn y gwasanaeth bydwreigiaeth. Roedd y gronfa ddata hon yn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu ar gael i fydwragedd cymwysedig a staff newydd-enedigol ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd.

Ers hynny, mae Sian wedi datblygu Ap Rhannu Gwybodaeth yn ystod Beichiogrwydd, sydd eto y cyntaf o'i fath i Gymru. Mae'r Ap diogel hwn ar ffonau symudol y Bwrdd Iechyd ar gyfer Bydwragedd Cymunedol ac Ymarferwyr Allgymorth Newydd-enedigol yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafaol ar wybodaeth amserol ar ddiogelu, hyd yn oed pan fyddant yn y gymuned i ffwrdd o brif safle'r ysbtyt.

Yn ogystal, mae'r cam arloesol hwn yn ddi-bapur ac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu'n electronig gyda Meddygon Teulu ac Ymwelwyr Iechyd, gan felly ddiogelu'r wybodaeth hanfodol hon sy'n cael ei rhannu.

Victoria Wall/Claire Parker - Ditectif Ringyll/Uwch Swyddog Prawf - Heddlu Dyfed-Powys/Gwasanaeth Prawf

Mae'r Ditectif Ringyll Victoria Wall a Claire Parker wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a sefydlu system i fonitro a rheoli'r broses o drosglwyddo troseddwyr i mewn ac allan o ardal Dyfed-Powys sy'n sicrhau bod dioddefwyr a darpar blant ac oedolion a allai fod mewn perygl yn cael eu diogelu. Mae'r broses yn sicrhau bod symudiadau'r rhai a allai beri risg i eraill yn cael eu holrhain a bod llety arfaethedig yn cael ei wirio a bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu hystyried gyda chamau cyflym yn cael eu cymryd pe bai unrhyw risg gynyddol.

Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y defnyddiwr gwasanaeth (megis ymweliadau cartref ac atgyfeiriadau i wasanaethau plant neu oedolion) ac wrth edrych tuag at y dyfodol, potensial fel model amlasiantaeth i gysylltu â phartneriaethau yn ardal Dyfed-Powys a thu hwnt.

Tîm INTACT - Ymyrraeth Gynnar a Gwaith Atal gyda Phlant a Phobl Ifanc - Heddlu Dyfed-Powys

Bellach, mae'r tîm wedi bodoli ers 12 mis, ac yn ystod y cyfnod hwnnw maent wedi derbyn 320 o atgyfeiriadau am gymorth, gyda chyfradd ddefnyddio o tua 85%. Yn ogystal â diogelu'r unigolion mewn perygl o gymryd rhan mewn trais difrifol a throseddau cyfundrefnol, maent hefyd wedi cefnogi eu rhwydweithiau teuluol a ffrindiau. Mae'r tîm wedi gweithio i feithrin perthynas ddibynadwy â gwasanaethau eraill fel Tîm o Amgylch y Teulu, cymorth ieuenctid a Thîm Troseddau Ieuenctid i ddatblygu cyfleoedd integredig i bawb.

Tîm Camfanteisio ar Blant Powys – Cyngor Sir Powys

Mae'r tîm wedi llwyddo i hwyluso diwylliant o newid, gan gynnwys symudiad amlasiantaethol oddi wrth fodelau asesu risg a oedd, yn ôl gwaith ymchwil ac archwiliadau mewnol, yn anfwriadol yn dweud wrthym mai ymddygiad plant oedd y broblem, i atal a chynnwys, a thuag at gefnogi plant sy'n destun camfanteisio fel rhai y mae angen eu hamddiffyn a'u cefnogi. Ym Mhowys, mae'r newid hwn wedi galluogi ymatebion diogelu i gamfanteisio sy'n cyd-fynd â'r ymatebion i bob math arall o gam-drin plant, gan roi ffocws cryf a phenodol ar bwy sy'n niweidio'r plentyn a pha leoedd sy'n cyfrannu at y niwed sy'n digwydd ac anghenion gofal a chymorth y plentyn unigol. Mae'r tîm yn parhau i werthuso'r newid drwy ddadansoddi canlyniadau'n rheolaidd, ac mae adborth defnyddwyr gwasanaeth wedi cynnwys plant ac aelodau o'r teulu yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Ym mis Mawrth 2020, roedd y tîm yn rhagweithiol wrth arwain y gwaith o greu set ddata ystyrlon i alluogi craffu di-dor ar sut beth yw camfanteisio ym Mhowys, beth sy'n gweithio'n dda a thargedu meysydd risg a hyd yma, mae hyn wedi cael derbyniad cadarnhaol gan bob asiantaeth. Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Annibynnol Rhanbarthol ar Fasnachu mewn Plant wedi disgrifio'r set ddata a'i chynllun gweledol fel un arloesol, ac o ganlyniad maent wedi gofyn i ddadansoddiad data o'r fath gael ei weithredu ym mhob Awdurdod Lleol ledled Cymru fel model arfer gorau. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu darlun sy'n gwella o ran ymatebion effeithiol i gamfanteisio ar blant, gan gynnwys mwy o ymatebion sy'n ymwybodol o drawma a tharfu i adferiad yn achos plant a theuluoedd.

Ymarfer Rhagorol a Ddangoswyd o ran Diogelu Oedolion mewn Perygl

Jess Antrobus - Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion - Cyngor Sir Powys

Mae Jess wedi cwblhau gradd meistr mewn diogelu, mae'n Asesydd Budd Pennaf ac yn cyfuno'r wybodaeth hon yn ddiwyd. Mae hi wedi datblygu cyfres o adnoddau hyfforddiant i helpu ymarferwyr a phartneriaid ddeall rôl y swyddogaeth ddiogelu. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau gwybodaeth bitesize am Weithdrefnau Diogelu Cymru i ategu'r hyfforddiant arall sydd ar gael. Mae Michael Gray, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, wedi annog yr enwebiad hwn ac wedi dweud hyn am Jess:

"Mae Jess yn cynnig cyfuniad unigryw o werthoedd sy'n seiliedig ar hawliau dynol, arweinyddiaeth gwasanaeth ac ymrwymiad diflino i wheud yr hyn sy'n iawn i'n preswylwyr. Mae'n ymgymryd â'i swydd gyda hyder a gostyngeiddrwydd sydd, yn naturiol, wedi ei gwneud hi'n rheolwr y mae pobl yn mynd ati yn ein gwasanaeth o ran diogelu oedolion sydd mewn perygl (gan gynnwys fi fy hun). Mae ei sgiliau, ei gwybodaeth a'i gwerthoedd yn ei gwneud hi'n un o'n haelodau staff allweddol yn y gwasanaeth. Mae Powys yn lwcus iawn o gael rhywun o safon Jess ac rwy'n falch iawn o weld bod Jess yn cael ei enwebu ar gyfer y wobr hon."

Cathy Richards - Uwch Reolwr Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid - Cyngor Sir Caerfyrddin

Er gwaethaf cyfranogiad gweithredol a pharhaus Cathy mewn amrywiaeth o bolisiau rhanbarthol a chenedlaethol, mae'n parhau i arwain a thrawsnewid y ffordd y mae Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn gweithredu o fewn ei thîm.

Mae Cathy wedi gweithio'n ddiflino i ddylanwadu ar eraill i ddysgu a newid arferion, gan wneud Diogelu yn "fater i bawb". Mae Cathy yn gyrru'r ethos sy'n ymwneud â gwneud diogelu'n bersonol, er mwyn sicrhau bod gan yr holl oedolyn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn ein rhanbarth lais a'u bod yn rhan o unrhyw gamau sy'n dilyn gymaint â phosibl. Mae profiad helaeth Cathy ynghyd â'i chreadigrwydd wedi trawsnewid y tîm yn Sir Gaerfyrddin, gyda llawer o Awdurdodau Lleol eraill yn mabwysiadu arferion a phrosesau a weithredir gan y tîm.

Ymarfer Rhagorol a Ddangoswyd o ran Diogelu Plant

Tîm Gofal a Chymorth y De, Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd, Tîm Ymyrraeth ac Atal - Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Powys

Cafodd plentyn 4 oed ei roi mewn gofal maeth o dan drefniant gwirfoddol gyda chaniatâd y fam. Roedd y plentyn wedi'i leoli yn y trefniant gofal hwn ers dros flwyddyn ac roedd asesiad wedi'i gwblhau yn argymhell y dylai mabwysiadu fod yn rhan o gynllun gofal y plentyn yn y pen draw. Fodd bynnag, adolygwyd yr asesiad a'r argymhelliaid hwn gan ddefnyddio'r offeryn mapio *Signs of Safety* ac roedd y tîm yn gallu meithrin perthynas ymddiriedus gyda mam y plentyn, gan alluogi'r tîm i ddeall y sefyllfa o'i safbwyt hi a'r sbardunau a arweiniodd at yr anawsterau yr oedd y Fam wedi'u cael pan gafodd y llety am y tro cyntaf.

Defnyddiwyd methodoleg *Signs of Safety* yn drylwyr i gynorthwyo'r tîm i argymhell cynllun gwahanol; un o ailuno. Roedd y tîm nid yn unig yn gallu edrych ar y pryderon, ond hefyd ar y cryfderau a oedd bryd hynny yn rhan o'r sefyllfa.

Yna, y sgiliau allweddol a ddefnyddiwyd i fyfyrio oedd meithrin perthynas a bod yn agored ac yn onest gyda'r teulu a'u rhwydwaith. Dychwelodd y plentyn i ofal y Fam a darparwyd cymorth pellach o dan gynllun gofal a chymorth.

**David Preece (Gwasanaeth Anabledd Integredig) a'r Gwasanaeth Maethu -
Gweithiwr Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Powys**

Mae'r tîm wedi gweithio ochr yn ochr â phlentyn ifanc ag anghenion iechyd cymhleth sydd wedi gofyn am ymyrraeth feddygol sylweddol ac arosiadau mewn ysbytai. Mae ymarferwyr wedi treulio amser yn yr ysbyty yn cadw cwmni i'r bachgen bach a rhoi seibiant i'r gofalwr. Ochr yn ochr â chefnogi'r plentyn a'i deulu, mae'r timau hefyd wedi bod yn symud ymlaen gyda chynllunio gofal ar gyfer ailuno yn ôl i'r teulu. Mae'r bachgen bach bellach yn aros dros nos yng ngofal ei lys-dad, gyda bwriad i ddychwelyd yn llawn amser. Mae hyn yn gyflawniad enfawr, a'r cyfan tra'r oedd y pandemig yn digwydd.

Kieran Wilkins - Uwch Weithiwr Ymyriadau Teuluol - Cyngor Sir Penfro

Y ffordd orau o grynhai'r rheswm dros enwebu Kieran yw geiriau mam merch ifanc y rhoddodd Kieran gymorth dwys iddi yn ystod y pandemig, ar ôl i'r person ifanc geisio cyflawni hunanladdiad:

Llythyr adborth gan fam:

"Pan wnaethon ni gyfarfod am y tro cyntaf, roedd ein merch newydd ddod allan o'r ysbty yn dilyn ymgais i gyflawni hunanladdiad ac roedd yn isel iawn. Prin roedd yn gadael y tŷ ac weithiau nid oedd yn codi o'r gwely heb sôn am fynd i'r ysgol.

Pan gyrhaeddoch chi, gwnaethoch i ni chwerthin a daethoch â llygedyn o obaith i ni. Gwnaethoch ein helpu i gredu fel rhieni ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu hi ond yn bwysicach fyth fe wnaethoch iddi deimlo'n spesial, ei bod yn cael ei gwerthfawrogi a bod pobol yn gwrando arni.

Gwnaethoch ei helpu dros amser i gredu ynddo'i hun, ei helpu hi i weld y da ym mhopeth a wnaeth, i ganolbwytio ar y pethau cadarnhaol ac i ddelio â'r heriau ar gyflymder a oedd yn addas iddi hi. Wnaethoch chi fyth betruso. Roedd eich cryfder, eich gwydnwch, a'ch gobaith ar gyfer y dyfodol yn ein cadw ni i fynd, ac roeddem mor ffodus o fod wedi cwrdd â chi. Rwy'n gwybod na fyddai hi yma heb eich help a'ch cefnogaeth chi ac nid yw fy mywyd yn ddim hebddi, felly rwy' wir yn ei olygu wrth ddweud eich bod wedi ein hachub ni i gyd.

Rydym yn gweld yr hyder newydd ynddi ac yn ei dro, mae hynny'n rhoi hyder i ni fod y dyfodol yn llawer mwy disgrair a hynny diolch i chi.

Rydych chi'n Weithiwr Cymorth Ar Ffiniau Gofal anhygoel ac yn berson gwych yn gyffredinol ac ni allwn ddiolch digon i chi am fod yn rhan o'n bywydau. Byddwn yn cofio amdanoch am byth. Rwy'n gobeithio bod llawer mwy o deuluoedd allan yna sy'n ddigon ffodus i elwa o'ch help a'ch cefnogaeth."

Paul Regimbal - Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol, Tîm o Amgylch y Teulu - Cyngor Sir Penfro

Mae gan Paul Regimbal 9 mlynedd o brofiad ôl-gymhwys o ar hyn o bryd mae'n Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol yng ngwasanaeth 'Tîm o Amgylch y Teulu' Sir Benfro, tîm a ariennir gan grant wrth Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys staff nad ydynt yn gymwysedig mewn gwaith cymdeithasol yn bennaf sy'n darparu ystod o wasanaethau cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi'u targedu i oddeutu 250 o deuluoedd ar unrhyw un adeg ar draws ein Sir. Mae'r ymyriadau hyn yn helpu i atal uwchgyfeirio anghenion teuluoedd at wasanaethau statudol.

Mae Paul wedi bod gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu am bron i dair blynedd bellach wedi iddo symud o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Mae ganddo ystod o sgiliau trosglwyddadwy ac mae'n weithiwr cymdeithasol eithriadol o gefnogol a chymwys sy'n rhoi cant y cant i'w rôl. Mae Paul yn uchel ei barch ac mae pobl yn meddwl dipyn ohono; ac mae'n helpu i ddangos gwell dystiolaeth a chymryd i ystyriaeth effeithiau hir dymor niwed cronnol ac yn arbennig cydnabod y dangosyddion cynnar o ran esgeulustod. Yn gynnar, cyflwynodd Paul gynlluniau diogelwch a llesiant ar sail cryfderau gyda theuluoedd. Mae'r cynlluniau hyn yn addas i blant, gan ddefnyddio llais y plentyn am risg/risgiau canfyddedig lle bynnag y bo modd ac maent yn ymarferol eu natur gan ganolbwytio ar ganlyniadau; a helpu pawb i gydnabod a deall yn well y ffactorau risg sy'n effeithio ar dwf, datblygiad, diogelwch a llesiant plant. Er mwyn sicrhau bod y tîm wedi gallu gweithredu'r dull hwn, mae Paul yn cynnig sesiynau goruchwyliau a gwaith grŵp i'r Tîm o Amgylch y Teulu ac weithiau i dimau eraill er mwyn helpu i fagu hyder ac uwchsgilio gweithwyr proffesiynol ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd.

Gwelwyd lefel uchel o orbryder yn gysylltiedig â'r gwaith yn ystod y pandemig. Mae'n werth nodi bod dull Paul wedi helpu eraill yn gyson i reoli risg a lleihau risg, gan gynorthwyo pawb i edrych at y teulu a rhwydweithiau ehangach o gymorth anffurfiol (lle bo'n bosibl) i helpu i fynd i'r afael â materion teuluol o fewn teuluoedd.

Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd - Tîm Ar Ffiniau Gofal - Cyngor Sir Penfro

Mae'r data meintiol ac ansoddol yn dangos bod aelodau'r tîm wedi ymrwymo i gryfhau teuluoedd a gwella perthnasoedd oddi mewn iddynt fel y gall plant barhau i fyw o fewn y rhwydwaith teuluol yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Er enghraifft, ym mlwyddyn ariannol 2020/21; Cafodd 175 o blant gymorth gan Ar Ffiniau Gofal. Cefnogwyd 82% o'r rhain i aros (neu ddychwelyd i) fyw o fewn eu rhwydwaith teuluol. Mae hyn yn cyfateb i ychydig dros 4 o bob 5 plentyn. Nid yw hyn yn digwydd heb y diwylliant a sefydlwyd o fewn y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae'n amlwg bod y dull sy'n canolbwytio ar yr unigolyn, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwytio ar atebion yn golygu mewn gwirionedd bod aelodau'r tîm yn dod ochr yn ochr â theuluoedd ac yn eu cefnogi i wneud y newidiadau fel y gall plant barhau i dderbyn gofal yn ddiogel o fewn eu rhwydwaith teuluol.

O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth Ar Ffiniau Gofal yn cyfrannu'n gadarnhaol at Strategaeth Lleihau Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal Gwasanaethau Plant Sir Benfro.

Philip Davies - Gweithiwr Cymdeithasol - Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Phillip yn weithiwr cymdeithasol ymrwymedig ac ymroddgar sydd nid yn unig yn cefnogi'r teuluoedd sydd wedi'u dyrannu iddo, ond hefyd aelodau ei dîm a'r teuluoedd y maent yn eu cefnogi. Mae Phil wedi rheoli sawl achos cymhleth ac mae ei ymddygiad gyda theuluoedd, y gofal y mae'n ei roi i'r plant a'r bobl ifanc a'r angerdd sydd ganddo wrth eirioli dros bob un o'r plant, yn ogystal â'i waith ysgrifenedig a chynllunio gofal cynhwysfawr i'r teuluoedd, wedi cael canmoliaeth uchel gan farnwyr, bargyfreithwyr, swyddogion adolygu annibynnol yn ogystal â'i gydweithwyr. Yn fwy arwyddocaol, mae'r teuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan Phillip hefyd yn canmol y gefnogaeth y mae'n ei chynnig. Mae'r gwaith uniongyrchol therapiwtig y mae Phil wedi'i ddarparu i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod heriol iawn yn eu bywydau wedi bod yn amhrisiadwy.

Shevaughn Williams - Gweithiwr Cymorth - Gwasanaeth Ieuenciad Sir Benfro

Mae ymarfer Shevaughn wedi cael effaith drawsnewidiol ar fywyd person ifanc a oedd wedi dioddef trawma ac a oedd mewn perygl difrifol o niwed sylweddol pellach.

Drwy adeiladu perthynas gadarnhaol, gefnogol ac o ganlyniad bod yn effro i ymddygiad sy'n peri gofid gan y person ifanc, sboner sy'n gorfodi, mam sy'n rheoli a pherthynas gwrywaidd sy'n ymddwyn yn amhriodol yn rhywiol, cyflwynodd Shevaughn gyfres o Atgyfeiriadau Amlasiantaeth a gweithiodd yn agos gydag asiantaethau a'r person ifanc i'w chefnogi i ddilyn cynllun risg i'w diogelu.

Ers hynny, mae Shevaughn wedi broceru parhad cymorth gofal cymdeithasol, cymorth cwnsela ac wedi annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel uwchgylchu a nofio a cherdded rheolaidd. Mae hi hefyd wedi bod yno i wrando a chefnogi'r person ifanc i gadw dyddiadur teimladau a'i hannog hi i gymryd rhan mewn cyfarfodydd tŷ ac i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar ei bywyd.

Linda Elias - Cydlynnydd Camfanteisio - Heddlu Dyfed-Powys

Mae Linda yn mynd y filltir ychwanegol i ddiogelu plant sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae hi wedi bod yn rhan annatod o ymgorffori cyfarfodydd MACE ac wedi gweithio gyda phob Awdurdod Lleol i sicrhau cysondeb ym mhob ardal. Mae Linda wedi goresgyn materion adrodd data drwy drefnu cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol fel Powys er mwyn sicrhau bod ganddynt y data priodol yn barod ar gyfer cyfarfodydd MACE.

Mae Linda yn ymdrechu'n gyson i nodi bylchau a meysydd i'w gwella. Yn ddiweddar, nododd ddiffyg gwybodaeth gan wahanol asiantaethau ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ac mae wedi mynd ati i drefnu hyfforddiant rhanbarthol i bartneriaid ynghylch Cyflwyniadau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Trafodir hyn yn yr is-grŵp hyfforddi nesaf.

Enwebiad ar y Cyd:

**Michael McAteer - Gweithiwr Tîm o Amgylch y Teulu/Gillian Richards - Gweithiwr
Tîm o Amgylch y Teulu/Fiona John - Gweithiwr Ieuencid - Tîm Cyfiawnder
Ieuencid/ Alexis Cook - Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru**

Cyngor Sir Penfro

Mae Gweithwyr y Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio ym maes Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Rhianta Ataliol er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu gwytnwch a sgiliau sy'n angenrheidiol i rianta eu plant a sicrhau lefel addas o lesiant drwy ddefnyddio strategaethau rhianta cadarnhaol.

Mae Gweithiwr Ieuencid y Tîm Cyfiawnder Ieuencid yn cefnogi pobl ifanc i addasu eu hymddygiad a'u hagwedd i leihau'r risg o aildroseddu drwy wella llesiant, cyfleoedd cymdeithasol ac ymgysylltu.

Mae Gweithiwr Cymorth Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru yn cefnogi teuluoedd sy'n profi ymddygiad ymosodol yng nghartref y teulu, i godi ymwybyddiaeth o effeithiau gwahanol fathau o gam-drin domestig ac i gefnogi teuluoedd i addasu ymddygiadau er mwyn lleihau risgiau.

Ymarfer Cyfranogol sy'n arwain at Gyd-gynhyrchu o ran Diogelu Plant neu Oedolion mewn Perygl

**Dr Sion James/ Dr Catherine Burrell - Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol,
Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol / Dirprwy
Gyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol -
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Mae'r tîm diogelu corfforaethol yn derbyn ymgysylltiad a chefnogaeth eithriadol gan Sion a Cath ym mhob maes gwaith ar ddiogelu. O fynychu Grŵp Cyflawni Diogelu Gwasanaethau Gofal Cymunedol a Sylfaenol, i gefnogi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion statudol, mynchy paneli Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig (DHR) a hwyluso cyfarfodydd gyda Meddygon Teulu fel rhan o'r Adolygiadau hyn, herio arferion diogelu yn barchus, gwella'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant a lledaenu negeseuon diogelu a'r hyn a ddysgwyd am ddiogelu i bob Ymarfer, mae'r pwysigrwydd y maent yn ei roi ar ddiogelu yn glir. Maent bob amser yn hawdd mynd atynt ac yn hygyrch wrth ymateb i faterion a cheisiadau diogelu er gwaethaf eu portffolios eang a'u llwythi gwaith sylweddol.

Ruth Harrison - Nyrs Arweiniol Diogelu Plant - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Cymerodd Ruth yr awenau wrth ddrafftio'r Weithdrefn Ranbarthol ar gyfer Rheoli Anafiadau i Blant Nad ydynt yn Gallu Symud. Mae drafftio gweithdrefn ranbarthol yn broses heriol. Roedd rôl Ruth yn modelu cydweithio i ddatrys safbwytiau gwahanol. Fel gyda phob polisi a gweithdrefn ranbarthol, yr effaith gadarnhaol yw darparu dull gweithredu cyson ar draws Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd Ruth yn gallu dangos ei sgiliau arwain amlasiantaethol wrth weithio ar draws asiantaethau i ddrafftio gweithdrefn mor bwysig. Dangosodd ddycnwch ac amynedd a arweiniodd at gymeradwyaeth ar draws yr holl bartneriaid o fewn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Yn ogystal â'r uchod, mae Ruth wedi gweithio'n ddiwyd ac ar y cyd â Rheolwr Diogelu yn Awdurdod Lleol Sir Benfro i ddrafftio Canllawiau ar Weithio gyda Phobl nad ydynt yn Cydweithredu.

Gwasanaeth Ffyddlon ac Ymroddedig i Ddiogelu Plant neu Oedolion mewn Perygl

Raquel Bennett - Uwch Nyrs Diogelu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Mae'r rôl yr Uwch Nyrs Diogelu yn rhan annatod o'r Tîm Diogelu ac mae'n cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu mewn Nyrsio i arwain yr agenda ddiogelu ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, yn unol â deddfwriaeth, arfer gorau a gofynnion rheoliadol, er mwyn sicrhau bod dull diogelu cadarn yn cael ei gyflawni ar draws y system.

Mae'r Uwch Nyrs yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn cyfarfodydd diogelu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan weithio gydag asiantaethau partner i sicrhau dull cydweithredol ac integredig o lywodraethu a sicrhau ansawdd y gwaith diogelu. Yr Uwch Nyrs yw'r Ymarferydd Arweiniol ar gyfer yr ymateb gweithdrefnol i farwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod (PRUDiC).

Mae'r Uwch Nyrs yn adnodd arbenigol i'r sefydliad ac i asiantaethau partner mewn sefyllfaedd diogelu sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn ogystal â'i hymroddiad parhaus i'w rôl fel Uwch Nyrs mewn Diogelu, mae Raquel wedi cyfrannu'n sylweddol at nifer o Is-grwpiau'r Bwrdd Diogelu a'u ffrydiau gwaith, gan gynnig mewnwlediad gwerthfawr a syniadau newydd i gefnogi'r Bwrdd yn ei ymdrechion parhaus i gyflawni arfer gorau a chefnogi ymarferwyr diogelu ledled y rhanbarth.

Stefan Smith - Pennaeth y Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Stefan Smith wedi bod yn swyddog gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ers dros 25 mlynedd ac yn y cyfnod hwnnw mae wedi gweithio'n ddiwyd er budd ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae Stefan yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r dull Addysg a Gwasanaethau Plant integredig gan ei fod yn sylweddoli gwerth y gorgyffwrdd rhwng y gwahanol wasanaethau sydd o fudd i'n plant a'n pobl ifanc. Heb yr integreiddio gwirioneddol hwn, ni fyddai llawer o'r hyn sydd wedi'i gyflawni o dan arweinyddiaeth graff Stefan wedi bod yn bosibl.

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae Stefan wedi arwain Is-adran Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin yn llwyddiannus. Mae ei ymagwedd broffesiynol a'i sgiliau arwain cryf wedi bod yn ddylanwad allweddol wrth ddatblygu'r gweithlu blaengar sydd wrth wraidd darparu gwasanaethau rhagorol ac arloesol ar draws holl sbectwm gofal cymdeithasol i blant.

Mae wedi arwain y gwaith o weithredu'r model Signs of Safety i weithio gyda theuluoedd, gan greu canolfannau ymarfer ledled y sir lle mae wedi gallu darparu amgylcheddau cefnogol i weithwyr cymdeithasol adlewyrchu, rheoli risg a chynllunio ymyriadau mewn amgylchedd cefnogol.

Barn a dealltwriaeth eang Stefan o wasanaethau sy'n effeithio ar ddiogelu plant sydd wedi golygu bod ei ddylanwad yn bellgyrhaeddol. Mae wedi cael effaith bersonol sylweddol ar arwain y Gwasanaeth ers dros 10 mlynedd i fod y Gwasanaeth Plant cryf a gwydn sydd ar waith yn Sir Gaerfyrddin heddiw.